



**Peiriannydd Technegol  
Parhaol 37 awr yr wythnos  
Conwy  
Gradd 06 GTAGC £23,866 – £26,470 y flwyddyn**

Cynorthwyo'r Rheolwr TGCh i berfformio ei (d)dyletswyddau a chyfrifoldebau ar holl agweddau'r rhwydweithiau, cyfathrebiadau sefydlog a symudol a phynciau cysylltiedig trwy ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth dechnegol. Bod yn bwynt cyswllt cychwynnol i'r sefydliad ar gyfer rhwydweithiau, cyfathrebiadau sefydlog a symudol. Darparu dogfennau, cyfarwyddyd a chefnogaeth i gydweithwyr yn yr adran TGCh a'r gymuned defnyddwyr. Gweithio mewn amgylchedd heriol lle mae cywirdeb ac atebolrwydd yn hanfodol. Cynorthwyo'r Tîm Datblygu gyda a gweithio tuag at arferion gorau'r cyfarwyddyd NCSC a darparu diogelwch technegol o safon uchel ar draws holl dechnolegau'r Gwasanaeth.

#### **CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS**

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

#### **Gofynion Hanfodol**

- Cymhwyster rhwydwaith cydnabyddedig megis CCNA neu safon gyfatebol, neu ei gwblhau yn ystod y cyfnod prawf.
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun.
- Y gallu i weithio'n gyfrinachol ac yn onest.
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol a hyfforddi neu addysgu eraill.
- Unigolyn brwdfrydig.
- Y gallu i gwblhau gwaith ar amser a gweithio dan bwysau.
- Sylw at fanylder.
- Sgiliau datrys problemau.
- Gallu gyrru a meddu ar drwydded yrru lawn.
- Bodloni'r broses archwilio cefndir NPPV Lefel 3.
- Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwranddo (i'w gyflawni cyn ddiwedd y cyfnod prawf – gyda cymorth) – Mynnir eich bod yn gallu; Deall hanfodion sgwrs yn y gweithle. Ymateb i ofynion syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebiadau syml. Mynegi rhywfaint o'ch barn cyn belled bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 10yb, 7 Rhagfyr 2018.**

**Dalier sylw, pe byddech yn cyrraedd y rhestr, cynhelir yr asesiadau a chyfweliadau ar 17 - 19 Rhagfyr 2018.**

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i [Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk](mailto:Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk)

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

